# y dinesydd

Gorff./Awst 2000 — PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH — Rhif 257


**Ysgol Undydd Ddwyieithog**

### Dathlu Chwe Chan Mlynedd Gwrthryfel Owain Glyndŵr

Cadwyn o bedair darlith dan nawdd Ysgol Hanes ac Archaeoleg, Prifysgol Caerdydd. Traddodir y darlithiau yn Gymraeg ac yn Saesneg:

(1) **'Gwrthryfel Owain Glyndŵr: Cymhellion, Cwrs a Chanlyniadau'** gan yr **Athro J. Gwynfor Jones**, Ysgol Hanes ac Archaeoleg, Prifysgol Caerdydd

(2) **'Ail-lunio'r Cymry: Y beirdd ar ôl diflaniad Glyndŵr'** gan **Dylan Foster Evans**, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

(3) **' "Nid efe oedd yr Owain yr ydoedd ef yn amcanu i fod": Owain Glyndŵr, propaganda'r Tuduriaid a chymhlethdodau'r traddodiad proffwydol'** gan **Dr Jerry Hunter**, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

(4) **' "Nes na'r hanesydd . . .": Owain Glyndŵr a Llenyddiaeth Gymraeg y Cyfnod Modern'** gan **Dr E. Wyn James**, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Yn Eglwys Bresbyteraidd y Crwys, 77 Heol Richmond, Caerdydd

Dydd Sadwrn, 16 Medi 2000 (sef chwe chan mlynedd i'r diwrnod y dechreuodd y Gwrthryfel), rhwng 9.30 a.m. a 5.00 p.m.

Tâl: £10 (yn cynnwys te/coffi a byrbryd ysgafn).

Trefnir arddangosfa o ddeunydd perthnasol gan Mr Peter Keelan, Ceidwad Llyfrgell Salisbury, Prifysgol Caerdydd.

Am ffurflen gofrestru a manylion pellach, anfoner at yr Athro J. Gwynfor Jones, Ysgol Hanes ac Archaeoleg, Prifysgol Caerdydd, Rhodfa Colum, Caerdydd, Ffôn: 2087 4000.

### Geiriau Rhyfedd!

'Ac eithrio ambell dafarn a chlwb yn Nhreganna a Phontcanna, dydi'r Gymraeg ddim yn iaith cymdeithasu anffurfiol yng Nghaerdydd' - Robin Gwyn yn ei golofn deledu yn y *Western Mail*, 10 Mehefin 2000.

**Yn ôl yr arfer, bydd rhifyn Medi o'r *Dinesydd* yn cynnwys y cyfeiriadur blynyddol i weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro, sy'n cynnwys manylion am gymdeithasau, sefydliadau, eglwysi ac ysgolion Cymraeg y cylch.**

**Os ydych am gynnwys unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau i'r cyfeiriadur, dylech gysylltu rhag blaen â Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (029-20628754).**

**Mae'r cyfeiriadur hefyd i'w weld ar wefan *Y Dinesydd*: http://www.dinesydd.uklinux.net/**

## Blwyddyn ym Mywyd Cwmni Dawns Werin Caerdydd

Mae nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i mi ddanfon rhyw bwt o erthygl i'r *Dinesydd* yn sôn am weithgareddau Cwmni Dawns Werin Caerdydd a chan ein bod ar ddechrau mileniwm newydd efallai taw priodol fyddai gwneud hynny nawr!

Mae'r Cwmni erbyn hyn wedi tyfu mewn nifer a phrofiad. Nôl ym mis Medi diwethaf penderfynwyd cynnal parti i ddathlu deng mlynedd o ddawnsio gwerin yn y ddinas. Felly, gan ddilyn arfer y Cwmni o wneud pethau'n wahanol, aethom i gyd i Iwerddon i ddathlu. Roedd hanner cant ar y daith a chynhaliwyd yr achlysur yn Dun Laoghaire gyda phawb yn gwisgo dillad o'r saithdegau ar gyfer gwledd y dathlu. Roedd y Cadeirydd yn edrych yn giwt iawn yn ei dillad ysgol a phopeth, gan gynnwys yr het, yn ffitio i'r dim. Diddorol oedd trafod byd y ddawns werin yno gyda phencampwraig stepio Iwerddon am ryw saith mlynedd sef Maureen O'Shea. Maen nhw mor "fed up" o ddylanwad y "Riverdance" â ni.

Roedd y Cwmni yn dawnsio allan yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd; efallai y dylen ni fod wedi gwneud mwy, ond hen stori yw honna. Dim ond nodi fan hyn y cyfle a gollwyd i osod ein

parhad tud. 7

# Llwyddiant Lisa



Yn y llun gwelir enillydd Tlws y Prif Gyfansoddwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bro Conwy eleni, sef Lisa Thomas, Pantmawr, Rhiwbina. Mae Lisa yn ferch i Huw Thomas, prifathro Ysgol Gyfun Glantaf, a'i wraig Sian, sy'n athrawes delyn.

Mae Lisa, sy'n 22 oed, yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Melin Gruffydd ac Ysgol Gyfun Glantaf. Graddiodd mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bryste y llynedd, ac ym mis Medi bydd yn dilyn cwrs ymarfer dysgu arbenigol mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Reading. Yn y dyfodol, hoffai Lisa arbenigo mewn defnyddio cerddoriaeth i gyfathrebu â phlant sy'n anabl, yn enwedig rhai sy'n awtistig.

Roedd rhieini Lisa yn dathlu eu priodas berl ddydd Sadwrn cyntaf Eisteddfod yr Urdd. Anodd dychmygu gwell anrheg ar benblwydd eu priodas na llwyddiant Lisa yr wythnos honno!

# Y Dinesydd

**Gorff./Awst 2000, Rhif 257.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 20 Awst:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 2070 8253)

**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchg Gwilym Dafydd,
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
(Ffôn: 2065 7108)

**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies,
41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 2056 4540).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol a newyddion cyffredinol at:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2AJ (2062 8754)
**neu** Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gdns, Llwynbedw,
Caerdydd (2069 3302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 20842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd (Ffôn: 20418270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

.............................................. Cod Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................


.............................................. Cod Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 17** **Gorff./Awst 2000**



**Ar Draws**

1. Lle i gadw dillad neu ysgol ar y Sul (6)
4. Esbonio dechrau go lew mewn arian Ewropeaidd (6)
9. Clodfori neb sy'n cefni ar balu dim yn Lloegr (7)
10. Llifogydd mis bron - llawer ohonynt (5)
11. '___ yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio' (Hebreaid) (3)
12. 'Gwae fi fy myw mewn oes mor ___,
A Duw ar drai ar orwel pell' (Hedd Wyn) (4)
13. Cael Wil allan o'r niwl i ffeindio'r afon (3)
15. Poen bywyd ar ôl yr hanner cant (4)
16. Twmpath, un o nifer ger y Rhos (4)
19. Doi'n ôl mewn tipyn (3)
21. Yn gyfres, bob yn ail, i'w gweld mewn ysbyty (4)
22. A yw hon yn gwrthod mynd? (3)
24. Berwi ma' dŵr heb ei goginio (5)
25. Wedi torri fel gordd naturiol (7)
26. 'Y ddaear â'n dân a'i ___au,
Ond geiriau fy Nuw fydd yr un' (MR) (6)
27. Cant yn aredig y wern yn ne-orllewin Lloegr (6)

**I Lawr**

1. I ble yr ei di, ___ ___ ___
A'th gar salŵn yn hymian ar y rhiw' (GRJ) (3,1,9)
2. Mae'r aelod hyn yn eistedd yn y Tŷ, ar sedd Noel efallai? (7)
3. Gwneud pwdin o gynnwys y creision (4)
5. Gwilym yn dryllio y llong cyn dod rhyddhad (8)
6. Dau ddeg pedol wych (5)
7. 'Fel ewyn ton a dyr ar draethell unig,
Fel cân y gwynt lle nid ___ ___ ___ ___' (Waldo) (3,5,1,4)
8. Troi'r tro a mynd yn ddarnau (5)
14. Codi Nero rywsut a'i daro (8)
17. '___ iawn â dolur
Fu'r Iesu yn fy natur' (ER) (7)
18. Hongian o'r cig o gwmpas (5)
20. Cosb am wneud dryw i ddrysu (5)
23. Dacw lew yn codi dros ben Elfed (4)

**Atebion Croesair 16**

**Ar draws:** 1. Adeilaf arno; 7. Gwregys; 9. Agor; 11. Argae; 12. Gansen; 14. Yn perchenogi; 18. Gwario; 20. Cilio; 22. Ysol; 23. Aelodau; 24. Glas y dorlan.

**I lawr:** 2. Darogan; 3. Awst; 4. Neges; 5. Egwan; 6. Cranc; 8. Gweledig; 10. Sarnicol; 13. Ochr; 15. Gwladfa; 16. Egwyl; 17. Modur; 19. Arogl; 21. Llaid.

**Enillydd Croesair Rhif 16**

Derbyniwyd saith o atebion, pob un ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfrau at Bryn Evans, 52 Glenwood, Llanedern. Cafwyd yr atebion eraill gan: Megan Griffiths, Llys-faen; Heledd Hall, Treganna; Gwenda Hopkins, Llanisien, Margaret Jones, Rhiwbina; Huana Simpson, Y Bont-faen; a Iona Warmington, Llandaf.

**Cystadleuaeth Gorff./Awst 2000**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 20 Awst.

## Calendr y Dinesydd

**Iau, 14 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Canu Mawl ar yr Ais, Eglwys y Tabernacl, am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 16 Medi**
Ysgol Undydd i Ddathlu Chwe Chan Mlynedd Gwrthryfel Owain Glyndŵr, yn Eglwys y Crwys. Manylion pellach: Yr Athro J. Gwynfor Jones, Ysgol Hanes ac Archaeoleg, Prifysgol Caerdydd (Ffôn: 2087 4000)
**Iau, 21 Medi**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Gwesty'r Cedars, Llanisien (dros y ffordd i Westy'r Phoenix) am 7.00 pm erbyn 7.30 pm. Sgwrs gan Angharad Rogers: 'Pigion Patagonia'. Manylion pellach: 2062 4588 neu 2062 4878.
**Llun, 2 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty'r Thistle (Gwesty'r Parc), am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Cysylltwch â Tony Couch (Ffôn: 2075 3625).
**Sadwrn, 7 Hydref**
Eglwys y Crwys: Cyngerdd gan Gôr Meibion Cwm-bach a rhai o ieuenctid y Crwys, am 7.30 p.m. Yr elw at Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro 2001.
**Sul, 8 Hydref**
Cymanfa Ganu yn Neuadd Dewi Sant am 6.30 p.m. Yr elw at Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro 2001.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Cydymdeimlwn:

- â Dr Peter Jones a'i deulu ar farwolaeth ei fam Bessie Lloyd Jones mewn cartref nyrsio yng Nghaerdydd, 13 Mehefin. Bu'n gantores adnabyddus yn ei dydd ac yn enillydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- â theulu y diweddar Doris John gynt o'r Mynydd Bychan a fu farw ar 3 Mehefin. Bu ei diweddar ŵr, Hywel Gwyndon John, yn flaenor yn Eglwys Pembroke Terrace cyn iddyn nhw ymaelodi yng Nghapel y Crwys ar ôl cau y "Teras".
- ag Eirion Lewis, Y Mynydd Bychan a'i deulu ar golli ei fam yn 93 oed yn Ysbyty Aberystwyth. Bu'n byw yn Llanbedr Pont Steffan a Chellan yng Ngheredigion.
- â Nesta Chappell a'i theulu ar farwolaeth ei gŵr Ernest Chappell yn Ysbyty'r Eglwys Newydd ar 4 Mehefin.

## Llongyfarchiadau:

- i Dr Manon Williams ar ei phenodiad yn bennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus BBC Cymru.
- i Dr Gwion Rhys a Manon Rhys, Treganna, ar enedigaeth eu plentyn cyntafanedig, Owain, ar 12 Mehefin.
- i Iona Jones ar ei phenodi'n Rheolwr Materion Corfforaethol Grŵp HTV. Ar hyn o bryd hi yw Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol S4C.
- i Alun Doull ar ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifennydd Cwmni Clwb Rygbi Caerdydd Cyf. Daw Alun o Riwbina a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Llanhari cyn mynd i Brifysgol Llundain.
- i Hywel Siams a'i wraig Rhian ar enedigaeth eu pedwerydd plentyn, Dafydd, ar ddechrau mis Mai.
- i Jon Gower ar gael ei benodi'n Ohebydd y Celfyddydau a Chyfryngau i BBC Wales, Radio Wales a Radio Cymru. Mae'n enedigol o ardal Llanelli a graddiodd mewn Saesneg yng Ngholeg Girton, Caergrawnt. Yn ddiweddar cyhoeddwyd cyfrol o'i straeon byrion dan y teitl *Big Fish*.
- i Owain Thomas, Caerfyrddin gynt, ar ennill ei ddoethuriaeth mewn Cemeg ym Mhrifysgol Caerdydd.
- i Glesni Whettleton, prifathrawes Ysgol y Wern, Llanisien ar ennill yr MBE am ei chyfraniad i addysg.
- i Rhidian John gynt o Dregaron ar ei briodas â Siân, gynt o Borthmadog yng Nghapel Bethel, Rhiwbina ddydd Sadwrn, 17 Mehefin.
- i Elinor Talfan ar ei phriodas â Michael Delaney yn Eglwys San Pawl Llundain ar 6 Mai. Mae Elinor yn Fatron yn Ysgol Eglwys Gadeiriol San Pawl ac yn gefn i Ysgol Gymraeg Llundain ers blynyddoedd lawer.
- i Dr Gwenllian Lloyd Evans, M.B.B.S. B.Sc. o Wenfô, cyn-ddisgybl yn Ysgol Sant Baruc,Y Barri ac Ysgol Glantaf, sydd newydd raddio o Goleg Meddygol Ysbyty St George's, Prifysgol Llundain. Dymuniadau gorau i chi wrth ddechrau eich gyrfa yn Ysbyty Warwick.
- i'r gyflwynwraig, Angharad Mair, a'i phartner, Jonathan Cray, ar enedigaeth eu cyntafanedig, Tanwen Mair Cray, yn Ysbyty'r Brifysgol ar 26 Mehefin.
- i Ceri Preece o Gwmni Cyfreithwyr Hugh James Ford Simey, ar gael ei ethol am y trydydd tro yn olynol yn Llywydd Siambr Fasnach Caerdydd.
- i Dr Eurfyl ap Gwilym ar ei benodi'n gyfarwyddwr ar Fwrdd Cwmni Adeiladu'r 'Principality'.
- i D. E. Wyn Thomas, Cyncoed, ar dderbyn OBE am ei wasanaeth clodwiw i bensaernïaeth.
- i Meic Stephens ar ennill y radd hŷn o D.Litt. Prifysgol Cymru ar sail ei lu o gyhoeddiadau. Dyma'r radd uchaf a ddyfernir gan Brifysgol Cymru, a bydd Meic yn ei derbyn mewn seremoni yn Aberystwyth, ei hen Goleg, ym mis Gorffennaf. Dyma'r ail radd iddo ei derbyn eleni, gan iddo dderbyn MA er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru ym mis Ebrill.

### Dwy fil, dwy iaith

Cynhelir Gŵyl Gymraeg ddydd Sadwrn, 21 Hydref, yn Neuadd Dewi Sant dan nawdd consortiwm Dysgu Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro. 'Dwy fil, dwy iaith' fydd teitl yr Ŵyl. Daw mwy o fanylion i law yn ystod y misoedd nesaf.

### Dychwelyd o'r Wladfa

Croeso nôl i Gymru i Angharad Rogers, Croes Cwrlwys, ar ôl bod yn dysgu Cymraeg yn y Wladfa am dros ddwy flynedd dan gynllun y Cynulliad a'r Cyngor Prydeinig.

### Ysgol Brynrefail yn 100 Oed

Bydd Ysgol Brynrefail, Llanrug yn dathlu ei chanmlwyddiant ym Medi 2000. Cewch ragor o fanylion am y dathliadau ar wefan yr ysgol: http://www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

### Aduniad Disgyblion Ysgol Tregaron

Bydd yn dda gan holl Dregaroniaid Caerdydd ddeall y bydd cyfle i gwrdd â hen gyfeillion a chael sgwrs dros 'banaid yn yr aduniad ar gyfer cyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron a gynhelir ym Mhabell Fwyd Dolen ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, ddydd Gwener, 11 Awst am 10.00 a.m. Y siaradwr gwâdd fydd y Parch. Ddr D. Ben Rees, a'i destun fydd 'Dyddiau Diofid Ysgol Sir Tregaron, 1949-1955'.

### Pasport Plant Coed y Gof

Bydd plant Ysgol Gynradd Coed y Gof yn ymddangos ar y rhaglen gwis newydd, *Pasport*, ar S4C ddydd Gwener, 25 Awst, am 5.00 p.m.

## Byd o Wahaniaeth

Roedd Wythnos y Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd rhwng 1 a 7 Mehefin yn gyfle gwych i roi cydnabyddiaeth i'r cannoedd o wirfoddolwyr sy'n gwneud cyfraniad pwysig i gymunedau ar draws Cymru gyda CSV. Gyda nifer cynyddol o brosiectau gwirfoddoli Cymraeg eu hiaith ar gael, gobaith yr elusen CSV (Gwirfoddolwyr Gwasanaeth Cymunedol) yw denu degau o bobl ifainc i roi o'u hamser i helpu eraill.

Mae un wirfoddolwraig Gymraeg wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf yn helpu ar un o brosiectau gwirfoddoli rhan amser CSV yng Nghaerdydd. Mae Catrin James yn dod o'r Ddraenen (*Thornhill*) ac yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf lle mae'n astudio lefel A mewn Arlunio Technegol a Chymdeithaseg (yn ogystal â Seicoleg y tu allan i'r ysgol). Gan fod ganddi amser rhydd ar ei hamserlen, penderfynodd wneud defnydd da ohono drwy wirfoddoli. Roedd Catrin yn chwilio am her newydd ac mae wedi treulio diwrnod yr wythnos yn gwirfoddoli yn Ysgol Pen-cae yng Nghaerdydd gan helpu plant yn y dosbarth gyda'u darllen, ysgrifennu a rhifyddeg. Mae'r disgyblion wrth eu boddau'n cael wyneb newydd yn y dosbarth a chael mwy o sylw unigol gyda'u gwaith a'u gweithgareddau.

Mae'n gyfle da i feithrin sgiliau a phrofiadau newydd, cyfarfod pobl newydd a gwneud rhywbeth fydd yn siŵr o edrych yn dda ar yr hen CV! "Mae'n brofiad da i edrych ar ôl y plant a chael cyfrifoldeb. Rwy'n mwynhau'r gwaith - mae'n neis gweld y plant yn gwerthfawrogi a theimlo fy mod i'n gwneud rhywbeth i helpu," meddai Catrin.

Mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn gwneud byd o wahaniaeth i'r prosiectau y maent yn gwirfoddoli amynt. "Mae'r gwirfoddolwyr yn help mawr i'r athrawon yn y dosbarth ac mae'n braf i'r plant gael mwy o sylw unigol gyda'u darllen a gwaith ymarferol," meddai Mrs Eleri Jones, Prifathrawes Ysgol Pen-cae.

Yn ogystal â chyfleon yng Nghaerdydd, gall CSV gynnig lleoliadau diddorol ac amrywiol ar hyd a lled Cymru. Ar hyn o bryd mae CSV yn chwilio am siaradwyr Cymraeg rhwng 16 a 35 oed a chanddynt rhwng 3 a 12 mis i'w sbario i wirfoddoli ar rai o'u prosiectau llawn amser sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall gwirfoddolwyr fod yn rhoi cefnogaeth i bobl ifainc digartref mewn hostel yng Nghaernarfon, gweithio gyda thimau troseddu ieuenctid i roi cefnogaeth ychwanegol i bobl ifainc ar fechnïaeth ar draws Gogledd Cymru, gweithio gyda phobl ag anawsterau dysgu yn y gymuned a rhoi ysbaid i ofalwyr yn eu cartrefi.

Pob blwyddyn mae oddeutu 2000 o bobl ifainc rhwng 16 a 35 oed yn penderfynu mynd yn wirfoddolwyr CSV i weithio oddi cartref gyda phobl sydd angen eu help. Bydd pob gwirfoddolydd llawn amser gyda CSV yn derbyn llety am ddim, bwyd a lwfans wythnosol o £25.50. Daw gwirfoddolwyr CSV o bob math o gefndiroedd a gallant wneud cais ar unrhyw bryd - does dim rhaid cael cymwysterau, ond mae brwdfrydedd yn hanfodol. Does dim un cynnig o help yn cael ei wrthod.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn wirfoddolydd CSV, yna cysylltwch â Branwen Miles, Cyfarwyddwraig Gwirfoddoli Drwy Gyfrwng y Gymraeg, ar 029 2066 6737.**

## Angen Gwirfoddolwyr Eisteddfodol

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n cynorthwyo ar stondin hysbysebu a gwerthu nwyddau Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2001 yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli, 5-12 Awst. Byddai 2 awr o'ch amser yn gymorth mawr i ni. Os ydych yn medru helpu, cysylltwch â Ffion Lloyd, rhif ffôn (nos) 029 2070 0107 neu e-bost: ffion.lloyd@ukgateway.net

## Llongyfarchiadau

Daeth anrhydedd arbennig i ran Carys Whelan, San Hilari yn y Fro, ddydd Sul 18 Mehefin yn Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, Heol Siarl, pan gyflwynwyd Croes Urdd Sant Gregori iddi a'i hurddo yn Fonesig Urdd Sant Gregori er mwyn cydnabod ei gwaith clodwiw fel Llywydd Cytûn am dair blynedd a'i hymdrechion i sicrhau yr offeren yn Gymraeg yn y brifddinas. Derbyniodd y groes o law yr Archesgob John Aloysius Ward ar ran y Pab. Yn y llun, gwelir hefyd Mr Bill Morris, o Gymdeithas Gatholig y Plant, a gafodd ei anrhydeddu yn yr un seremoni.



## Gŵyl Feithrin

Thema Gŵyl Feithrin y Mudiad Ysgolion Meithrin eleni oedd "Pobl sy'n ein helpu" ac fel rhan o'r Ŵyl cynhaliwyd digwyddiad yn y Ganolfan Chwaraeon yng Ngerddi Sophia ar 21 Mehefin pan ddaeth dros dri chant o ddisgyblion cylchoedd meithrin Caerdydd a'r Fro ynghyd i fwynhau bore o adloniant gan Martyn Geraint a Bobby Dingle.

## Elenid yn Unawdydd

Cafwyd cyngerdd gan Gerddorfa Ffilharmonic Caerdydd yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd nos Wener, 23 Mehefin, a'r unawdydd ffidil oedd Elenid Owen, merch George a Nest Owen, Llandaf. Rhoddodd berfformiad caboledig iawn o'r gwaith *Havanaise* gan Saint-Saëns.

## Pregethu ers 50 mlynedd

Yn ystod y gwasanaeth boreol yng Nghapel Bethel, Rhiwbina ar 18 Mehefin cyflwynwyd tystysgrif i Eifion Hopwood, Llandochau, gan y Parchedig Pamela Cram a'r Parchedig Evan Morgan, yn cydnabod y ffaith iddo fod yn bregethwr lleyg ers hanner can mlynedd. Ar ddiwedd y gwasanaeth aeth y gynulleidfa allan i sefyll o flaen y fynedfa i weld y gweinidog y Parchedig Evan Morgan yn dadorchuddio llechen hardd iawn ag enw'r capel arno mewn llythrennau aur. Rhodd oedd y llechen gan bedwar aelod o'r gynulleidfa.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EBENESER, CAERDYDD

Cynhaliwyd bore coffi Cymorth Cristnogol fore Sadwrn, 6 Mai. Roedd stondin pethau ymolchi gan Ebeneser. Cyfanswm elw'r holl stondinau oedd £1,500 tuag at yr elusen.

Ddydd Iau, 22 Mai, aeth Cymdeithas y Chwiorydd ar ei Gwibdaith Flynyddol. Aeth llond bws ynghyd â rhai brodyr dewr ar daith drwy gyrion Aberhonddu lle cafwyd cwpaned o goffi. O'r fan honno aethpwyd i'r Plough, Maenordeilo lle y cafwyd pryd blasus. Draw wedyn i Ddinefwr i weld y plas a'r Castell. Roedd golygfeydd godidog i'w gweld o dyrau'r castell dros Ddyffryn Tywi. Cafwyd diwrnod hyfryd i'w gofio.

Llongyfarchiadau mawr iawn i Miss Mair Jones, Pen-y-lan, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 ar 22 Mai. Dymunwn flynyddoedd lawer iddi eto a iechyd i'w mwynhau.

Llawenydd mawr i ni ar nos Sul, 2 Gorffennaf, oedd cynnal oedfa gymun er mwyn derbyn pedwar o ieuenctid yr eglwys yn gyflawn aelodau. Dymunwn bob bendith i'r pedwar a dderbyniwyd sef Betsan Dafydd, Bethan Mair Lewis, Anna Morgan ac Ifan Tudur.

## BETHEL, RHIWBINA

Cafwyd noson hynod o bleserus yng nghwmni Côr Canna, dan arweiniad Delyth Medi, 3 Mai. Cytunodd y merched i gynnal cyngerdd er mwyn ein cynorthwyo i godi arian tuag at Gymorth Cristnogol, ac fe gafwyd casgliad o £131. Diolchodd y Gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, i'r côr a'r sawl a ddaeth i'n cefnogi.

Ar nos Iau, 11 Mai, cafwyd cyfarfod difyr arall ym Methel. Y tro hwn bu cynrychiolwyr y gwahanol enwadau yn ymateb i "Y Ffordd Ymlaen", dogfen drafod ar uno'r eglwysi ymneilltuol. Agorwyd y drafodaeth gan y Parchedig Eifion Powell.

Diolch i Siân Elen am gynrychioli ieuenctid Bethel yn y gwasanaeth undebol fu yn Neuadd Dewi Sant, 7 Mai i gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro 2001.

## TABERNACL, CAERDYDD

Roedd sawl aelod yn dathlu yn ystod y mis diwetha. Ganwyd gor-ŵyr cyntaf i Susie Evans - ac felly ŵyr cyntaf i Alwyn a Zora Evans. Hefyd croesawodd Jo Smith ei hŵyr cyntaf, ail blentyn i Huw Gethin a Llinos.

Bu dwy briodas yn y capel yn ddiweddar hefyd, sef priodasau Elena Rees a Martin Richards, a Suzanne Griffiths ac Archie Colquhoun.

Penodwyd un o'r diaconiaid, Rhodri Williams, yn Gadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fel olynydd i Dafydd Elis-Thomas. Derbyniodd Ann Beynon wahoddiad gan Brifysgol Cymru, Bangor, i fod yn Gymrawd - coleg lle bu'n gweithredu am gyfnod fel llywydd Undeb y Myfyrwyr. I ychwanegu at lawenydd y teulu, cafodd Marged ei derbyn i astudio yng Ngholeg yr Iwerydd.

Yn gwella ar ôl afiechydon, rhai ohonynt yn yr ysbyty, mae Dafydd Meurig Thomas, Gwyneth Lewis, Mary James, Susie Evans, Mair Owen a Hugh Matthews.

Bu dau o'r aelodau ifainc yn disgleirio ar y maes criced - cafodd Matthew Preece ac Owain Williams eu dewis eto i chwarae dros Sir Caerdydd yn erbyn Ysgol Millfield, ac yn ystod hanner tymor, bydd y ddau ar daith gyda'r sir yn ardal Ogwr.

## EGLWYS ANNIBYNNOL GYMRAEG Y BARRI

Yn dilyn dymuniad Mr Goronwy Williams i gael ei rhyddhau o'i swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eglwys yn ystod yr haf eleni - swydd y bu iddo ei chyflawni yn ardderchog iawn dros nifer fawr o flynyddoedd - llawenydd i bawb oedd clywed bod Mrs Marian Donovan wedi ei hethol yn olynydd iddo. Derbyniwyd Marian i'r Ddiaconiaeth yn yr oedfa fore Sul, 7 Mai, yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eglwys.

Llawenydd i bawb oedd derbyn pedair aelod newydd i gymdeithas yr Eglwys yn ystod y ddwy oedfa gymun ddiwethaf, sef Mrs Mai Marley, Mrs Sera Davies, Mrs Sali Williams a Mrs Judy Coleman.

Yn oedfa bore Sul, 14 Mai cyflwynwyd rhodd yr un i Mr Alcwyn Evans a Mr Penri Treharne ar achlysur dathlu 50 mlynedd yn y Ddiaconiaeth. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

## EGLWYS Y CRWYS

Erbyn hyn rydym yng nghanol tymor y gwyliau ac o'r herwydd mae gweithgareddau pob eglwys yn dueddol o arafu. Serch hynny mae'n werth nodi rhai digwyddiadau yn Eglwys y Crwys. Ymunodd nifer dda o'r gwragedd â Sasiwn Genhadol y Chwiorydd a gynhaliwyd yn y Drenewydd ganol Mai. Bu cynrychiolwyr o'r Eglwys ar Bererindod 2000 o Drefeca i Gaerdydd. Trefnwyd y daith gan y Parchg Gethin Rhys, Warden Trefeca, ac fe ddaeth y cerdded i ben gyda gwasanaeth o ddiolch yn ymyl yr Oleulong yn y Bae. Ddydd Mercher 28 Mehefin arweiniodd yr Athro John Gwynfor Jones daith bws i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i weld yr arddangosfa sy'n gysylltiedig â Glyndŵr a llythyr Pennal. Ar ddiwedd Gorffennaf daw cyfle i'r Eglwys groesawu wyth o ieuenctid o'r Taleithiau Unedig i Gaerdydd. Byddant yn aros am gyfnod o dair wythnos ar aelwydydd ieuenctid lleol.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theulu a chyfeillion **Miss Nan Davies** (Llandaf) fu farw ganol Mehefin.

Croeso cynnes a phob dymuniad da i bedwar baban a anwyd yn ystod y misoedd diwethaf:
**Mali Elin** - ail blentyn i Rhian a Kevin Widgery (Caerffili)
**Rebecca Mair** - ail blentyn i Meryl a Gethin Ellis (Y Mynydd Bychan)
**Megan Emily** - ail blentyn i Helen a Simon King (Rhiwbina)
**Steffan Emlyn** - plentyn cyntaf i Nia a David Thompson (Llandaf)

Bedyddiwyd dau faban yn ystod mis Mai - **Elwyn Siôn** (mab Ruth ac Aled Williams, Draenen Pen-y-graig) a **William Cai** (mab Siân Elin Parry, Treganna). Pob dymuniad da iddynt hwythau.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Gweler tudalen 11.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## YSGOL Y WERN

### Llwyddiannau

Braint mawr i ni fel ysgol oedd gweld Marged Jones, Bl.6, Daniel Phillips, Bl.6, Daniel Reed, Bl.4 a Bethan Phillips, Bl.3 yn cynrychioli Ysgol y Wern yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni ym Mro Conwy. Llongyfarchiadau i Marged a ddaeth yn gyntaf wrth chwarae'r cello yn y gystadleuaeth ur-awd llinynnol, ac i Daniel a oedd yn fuddugol ar ei drwmped yn y gystadleuaeth unawd pres. Da iawn chi i gyd.



*Marged Jones*
*Cyntaf ar yr Unawd Llinynnol dan 12 oed ym Mro Conwy 2000*



*Daniel Phillips*
*1af ar yr Unawd Pres dan 12 oed ym Mro Conwy 2000*

Eleni eto mae ein tîm **Diogelwch y Ffordd** wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol. Fe fydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal ar ddiwedd y mis yn Neuadd y Sir. Pob lwc i Owain James, Elinor Charles, Andrew Harries, Rhian Williams a Jonathan Walsh.

Cafodd ein tîm **cwis llyfrau** lwyddiant yn ddiweddar wrth gystadlu yn erbyn gweddill ysgolion Cymraeg Caerdydd. Daethant yn gyntaf wrth drafod y llyfrau ac yn gydradd ail yn y gystadleuaeth yn gyfan gwbl. Aelodau'r tîm oedd Marged Jones, Angharad Watkin Jones, Lowri Phillips a Siân Houdmont.

Profodd ein tîm **rygbi** lwyddiant unwaith eto mewn twrnament rygbi i ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd. Da iawn chi fechgyn am gyrraedd y rownd gyn-derfynol.

### Digwyddiadau

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 y pleser o fod yn rhan o'r Prosiect Cerddoriaeth Fyw o dan arweiniad offerynwyr Cerddorfa Symffoni y BBC. Treuliwyd nifer o sesiynau mewn gweithdy i gyfansoddi darn creadigol o gerddoriaeth ar deithio. Clymwyd ein perfformiad ni â pherfformiad Ysgol Cefn Onn.

Fe fyddwn yn croesawu y chwaraewr rygbi Brad Clark i'n plith ni y tymor hwn. Aelod o dîm rygbi Glynebwy yw Brad Clark, ond gan fod y tymor rygbi wedi gorffen, fe fydd yn hyfforddi plant Blynyddoedd 5 a 6. Rhoddwyd croeso cynnes hefyd i'w wraig a dreuliodd fore pleserus gyda ni yn arsylwi ar addysg Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Mae'r ddau yn enedigol o Seland Newydd.

Gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd yn nesâu, mae yna nifer o ddigwyddiadau wedi bod neu ar y gweill i godi arian. Yn ddiweddar bu plant Blwyddyn 6 yn canu mewn cymanfa yng Nghapel Beulah yn Rhiwbina, er mwyn codi arian ar gyfer yr Ŵyl.

### Newidiadau Staffio

Estynnwn groeso cynnes i'r athrawon newydd canlynol a fydd yn ymuno â ni ym mis Medi: Ms Nia Samuel, Mr Rhodri Mears a Mr Matthew Wason. Pob hwyl i Miss Rhian Jones, Miss Rhian James a Miss Catrin Incledon a fydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor.

### Colli Pennaeth

Cyn gorffen rhaid nodi digwyddiad o dristwch a siom i ni yn y Wern - mae ein Pennaeth Mrs G Whettleton yn ein gadael! Cafodd ei phenodi yn Ymgynghorydd Cynradd y sir. Haeddiannol iawn yw i'r swydd ac mae wedi ein harwain yn gadarn ac â gweledigaeth ers dechrau'r Wern nôl ym 1981. Yn ein syfrdandod rhaid dymuno pob hwyl a lwc iddi. Bydd lle gwag yma ar ei hôl.

## Mwyniant Mai

Cynhaliwyd Mwyniant Mai eto eleni yn Ysgol Gyfun Glantaf. Gwelwyd ffrwyth wythnosau a misoedd o hyfforddi, ymarfer a dysgu wrth i'r disgyblion a oedd wedi ennill eu ffordd trwodd i Brifwyl yr Urdd berfformio o flaen cynulleidfa, a hynny mewn awyrgylch anffurfiol a chefnogol yng nghwmni athrawon, rhieni a ffrindiau.

Nodwedd amlwg iawn i'r noson oedd amrywiaeth. Aethom ni o J. S. Bach at ddawnsio disgo, o Gerdd Dant i ymgom fodern, fel yr eisteddfod ei hun wrth gwrs. Nid dim ond gwledd gerddorol a gafwyd fodd bynnag - roedd y byrddau o luniaeth a baratowyd gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn demtasiwn na lwyddodd fawr neb i'w gwrthsefyll!

Roedd talent y disgyblion, fel ym mhob un o gyngherddau a pherfformiadau'r ysgol, yn amlwg iawn. Mae lle mawr i ddiolch - i bawb a gymerodd ran, ac i bawb a oedd wedi gweithio mor galed i baratoi a hyfforddi'r disgyblion i safon mor uchel.

**Dafydd Elis a Jenny Heap,**
Prif ddisgyblion Ysgol Glantaf

## Arian i'r Urdd o Riwbina

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Flynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina yng Nghapel Beulah nos Sul, 7 Mai dan arweiniad medrus Alun Guy. Yn ystod y Gymanfa cafwyd eitemau gan gôr disgyblion Ysgol y Wern ac roedd y casgliad yn mynd tuag at gronfa leol Gogledd Caerdydd Eisteddfod yr Urdd 2001. Roedd y capel bron yn llawn a chafwyd canu ardderchog. Recordiwyd y Gymanfa ar gyfer *Caniadaeth y Cysegr*.

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yn Festri Bethel, Rhiwbina fore Sadwrn, 17 Mehefin i godi arian at gronfa Eisteddfod yr Urdd 2001. Daeth tyrfa ynghyd a gwnaethpwyd elw o ychydig dros £300.

## Gwibdaith i'r Babell

Cynhaliodd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina eu gwibdaith flynyddol nos Lun, 19 Mehefin, gan ymweld â'r 'Babell' yng Nghwmfelinfach lle bu'r bardd Islwyn yn pregethu. Oddi yno aethpwyd i ymweld ag Eglwys Gymraeg Aber-carn a godwyd drwy haelioni Gwenynen Gwent (Arglwyddes Llanofer) a'i gŵr Benjamin Hall (yr enwyd 'Big Ben' yn Llundain ar ei ôl). Yno, cafwyd sgwrs gan Alun Griffiths am hanes yr eglwys ddiddorol hon. Gorffennwyd y daith yng Nghlwb Rygbi Cross Keys lle cafwyd swper blasus cyn dychwelyd adre.

traddodiadau mwyaf lliwgar gerbron y byd. Tristwch y peth oedd y diffyg dychymyg a welwyd yn y seremonïau agor a chau. Cofiwch chi, fi yw'r cyntaf i ymfalchïo yn y "cŵl Cymru" ac wrth fy modd yn gwrando ar *Catatonia* a'r *Manics*, ond go brin na fyddai'r "bagpipes" ar gae Murrayfield neu'r stepio Gwyddelig yn Lansdowne Rd petai'r ddwy seremoni wedi bod yno. Mae digon o hyder ganddyn nhw yn eu diwylliant. Beth sy'n bod arnom ni'r Cymry?



Gorchwyl diddorol oedd ein cyfraniad i Ŵyl y Cynhaeaf yn Sain Ffagan y llynedd. Roedd yr Amgueddfa yn garedig iawn wedi tyfu cae o wenith melyn yn arbennig i ni. Eto'n garedig iawn, dyma Andrew Dixie yn trefnu rhyw wyth cryman ar ein cyfer a bu'r criw wrthi'n lladd gwair, fel tase'r gwair yn fy ngardd fy hunan ddim angen ei dorri! Cofiwch chi, roedd rhywbeth hynafol iawn mewn cael picnic o gwmpas y sychau, atgofion o'r ffilm *Tom Jones*. Roedd y Swper Cynhaeaf yn rhywbeth arall. Er ymdrechion clodwiw Dianne a Betsan, anodd yw paratoi cawl i ddwsin neu fwy ar dân agored sy'n gwrthod cynnau a'r pren yn wlyb. Sôn am flas gwahanol.

Ynghyd â channoedd eraill bu'r Cwmni yn cerdded ar hyd strydoedd Caerdydd yng ngorymdaith y Mileniwm, ond ni a gafodd y fraint o arwain yr holl beth. Wel! Y Fari oedd yn arwain a ni fel gosgordd iddi. Mae'n debyg taw'n Mari ni yw'r hynaf o gesig yr adfywiad, o leiaf yng ngŵydd yr anwybodusion neu y rhai hynny na thrafododd y mater gyda thrigolion di-Gymraeg ardaloedd Blaenau Morgannwg - ond mae angen erthygl arall i egluro hwnna. Cawsom noson fythgofiadwy gyda'r Fari yn camfiafio'r holl ffordd. Cafodd Siân Lloyd gythgam o sioc pan ollyngodd yr Ostler yr awenau ac i ffwrdd â'r Fari yn syth i geisio ymuno yn ei sylwebaeth ar y radio. Trueni nad oedd camerâu'r teledu arni ar y pryd neu mi fyddai digonedd o ddefnydd ar gyfer *Aunty's Bloomers*. A diolch i Howard Potter am ei gyfraniad i'r hwyl. Bu'r Fari allan o'i stabal am gyfnod hir eleni gan gynnwys ei thaith flynyddol i'r Hen Dafarn yn Llangynwyd ac er nifer o ymdrechion i "farddoni" yn ei herbyn agorwyd pob drws iddi. Hwylus oedd taith y bechgyn o gwmpas y Fro ac i ardaloedd na fu Mari Caerdydd iddyn nhw o'r blaen, lle y cafwyd croeso a diddordeb yn eu stranciau a'i hanes.

Wedi hwyl y Calan cafwyd misoedd lled dawel, nifer o fân gyngherddau ond dim fawr o bwys tan yr Ŵyl Fai yn Sain Ffagan. Dawnsio yn unig eleni, a oedd yn dra gwahanol i'r llynedd pan ailgrëwyd terfysg Beca y tu allan i'r Tolldy. Roedd hyd yn oed militia y Gatrawd Gymraeg wedi eu cynnwys yn yr achlysur. Rhyfedd oedd gweld bechgyn Caerdydd wedi eu pardduo ac yn gwisgo sgertiau a wigs gyda'r cwrls yn hongian yn gynhennau ar eu hysgwyddau. Rwy'n gwybod fod Dai yn hen gyfarwydd â gwisgo sgert, ond rhaid i mi gyfaddef, roedd gweld fy hun â gwallt yn rhywbeth eitha rhyfedd. Syndod mor effeithiol oedd y cuddwisgo, roedd nifer o'n ffrindiau a oedd yn y dorf yn methu â'n hadnabod nes i ni siarad â nhw.

Hanner ffordd trwy fis Mai aeth pedwar ar ddeg o'r Cwmni i Lyon, Ffrainc i gynrychioli Cymru mewn 'Expo' a drefnwyd gan y Cynulliad. Pwrpas yr achlysur oedd gwerthu Cymru fel canolfan ddiwydiannol a diwylliannol i bobl deheudir Ffrainc. Mae'n debyg na fu unrhyw beth felly o'r blaen yn yr ardal. Ein swyddogaeth ni oedd dangos i'r Ffrancwyr y math o ddiwylliant gwerin sydd yn bodoli yma. Iawn, ond roedd y nifer y caniatawyd iddynt fynd yn brin a phan gyrhaeddon ni, y lle i ddawnsio yn brinnach. Erbyn diwedd yr wythnos roedd y llwyfan wedi ehangu rhywfaint ond heb fod yn sad iawn ac yn adweithio'n fwy fel trampolîn na llawr dawns. Er yr holl anawsterau, o dywydd crasboeth a llwch i law a llifogydd, cannoedd o fotobeics ac ambell leolyn a fynnai ddawnsio yn ein plith, roddwyd deunaw perfformiad a'r rhain heb gynnwys ymarfer am naw bob bore.

Un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd i Howard Evans ymuno mewn gorymdaith yn dathlu priodas Catherine de Medici. Doniol oedd gweld y Ddraig yn cwhwfan ymhlith baneri 'Fleur de Lys' y Ffrancod a chlywed ambell Gymro pybyr yn ein hatgoffa yn uchel bod y Ffrancod heb anghofio Crécy, Poitiers nac Agincourt. Roedd yr hwyl yn wych a'r bwyd yn well a'r 'Côte de Rhone' yn oer. Gwaith caled a phawb yn dod yn ôl lawer yn ffitach na phan aethon nhw ma's ac yn bwysicach, pobl y Cynulliad yn hapus gyda'n cyfraniad i lwyddiant ysgubol y fenter.

Daeth hyfryd ddydd Gŵyl Ifan yn ei dro a gwych o ddydd ydoedd hefyd. Gorymdeithio o Rodfa'r Afon ar hyd Stryd y Frenhines a chodi'r Pawl Haf o flaen Neuadd y Ddinas yn y bore. Dawnsio yn y Bae ac o gwmpas y Fro yn y prynhawn a'r haul yn gwenu'n braf ar ein hymdrechion. Ond uchafbwynt yr ŵyl eleni oedd y Daplas nos Sadwrn. Cynhaliwyd yr achlysur yn Nheras y Gerlan - Riverside Terrace i bobl arferol fel chi a fi - yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd hwnnw'n wych, ond yr hufen ar y gacen oedd i ni gael y fraint o ddefnyddio'r stadiwm ei hun tan un y bore, "floodlights an' all". Roedd y peth yn hollol "bizarre". Tua 200 o ddawnswyr gwerin Cymru a ffrindiau o Iwerddon, yr Alban ac Ynys Manaw yn dawnsio lle troediodd Scott Gibbs, Mark Taylor a'r criw. Mae'r lle yn anhygoel. Tri o'r bechgyn yn canu "Hen Wlad fy Nhadau" ar ganol y gwagle heb PA a phawb yn deall y geiriau, yr awyrgylch yn groesawgar a chynnes a'r hwyl a'r joio a'r cyffro yn tanio pawb. Mi ddyle'r "Rownd the Room" a berfformiwyd fynd yn y *Guiness Book of Records*. Mae'n siŵr gen i fod pawb nad oedd yno dipyn bach yn genfigennus achos unigryw oedd rhin y noson ac ni ellir ei hefelychu.

I orffen y llith rhaid nodi bod y Cwmni yn mynd o nerth i nerth a'r ymarferiadau bob nos Iau yn fwrlwm o hwyl a sbri. Er hyn mae bob amser lle i ddawnswyr newydd, yn enwedig bechgyn. Os oes unrhywun am ddod i gwrdd â'r criw mae croeso bob amser yn y Clwb Trydan wedi ymarfer. Mae'r hysbys hwn ar gyfer pawb sy'n dod i'r ddinas i ddechrau gyrfa ym mis Medi.

**Rhodri Jones**

## Ceiri a'i Gerddoriaeth

Ydych chi'n cofio Ceiri Torjussen, y cyfansoddwr ifanc 24 oed o Riwbina a enillodd Dlws y Cerddor yn Eisteddfod yr Urdd dair gwaith - yn 1995, 1997 a 1998? Ar ben hynny, y llynedd enillodd Dlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn.

Mae Ceiri yn dipyn o deithiwr. Ar ôl gadael Ysgol Glantaf, bu'n athro yn yr India am chwe mis, cyn dechrau ar ei astudiaethau ym Mhrifysgol Caerefrog. Daeth adref o'r India i nôl ei wobr yn Eisteddfod yr Urdd Preseli yn 1995. Erbyn hyn y mae wedi graddio o Brifysgol Caerefrog ac yn astudio am radd Meistr yn Los Angeles. Yno, mae'n cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer y neuadd gyngerdd yn ogystal ag ar gyfer ffilm.

Cafwyd rhaglen arbennig am Ceiri a'i fywyd yn L.A. ar S4C, nos Sul, 28 Mai, rhaglen a gynhyrchwyd gan ei dad, Alan Torjussen. Mae Alan Torjussen yn gweithio ym maes teledu ers 30 mlynedd, ac yn rhedeg ei gwmni ei hun, Cwmni Genesis, ers saith o'r rheini.

Roedd y rhaglen yn cynnwys cerddoriaeth siambr gan Ceiri, ei waith i gerddorfa, yn ogystal â'i jazz. Cafodd *Giant Steps*, y grŵp jazz a ffurfiodd Ceiri pan oedd yng Nglantaf, ei aduniad cyntaf mewn saith mlynedd, a chwaraewyd darn a gyfansoddodd Ceiri yn arbennig ar gyfer y grŵp. Erbyn hyn, y mae un o'r aelodau, Osian Roberts, yn chwarae'r sacsoffôn yn broffesiynol, wedi iddo astudio jazz yn yr Academi Frenhinol.



*Yn y llun: Ceiri Torjussen (chwith) a'i gyfaill, Osian Roberts, yn Los Angeles.*

## Delyth yn y Bae

Roedd dydd Llun, 8 Mai, yn ddiwrnod pwysig yn hanes Delyth Evans, aelod newydd y Cynulliad yn y Bae, gan mai ar y diwrnod hwnnw y cymerodd ei lle yn y Cynulliad am y tro cyntaf ar ôl cymryd y llw o deyrngarwch. Hi sy'n cymryd lle Alun Michael sy wedi dychwelyd i'r Senedd yn Llundain. Bu'n ohebydd gyda'r BBC ac HTV a bu'n gyfrifol am ysgrifennu nifer o anerchiadau Alun Michael yn ystod ei gyfnod yn y Cynulliad. Mae hi'n aelod o'r Blaid Lafur ers un mlynedd ar bymtheg ac yn frwd dros yr iaith Gymraeg. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a Phrifysgol Cymru Aberystwyth ac mae hi'n enedigol o Gaerdydd.

## Am y Gorau

Mae cyfresi *Am y Gorau* ar S4C yn rhoi cyfle i ddwy ardal, bro, tref neu bentref gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cystadlaethau amrywiol, gydag enillwyr y gyfres yn ennill £10,000 at achos da neu weithgaredd yn eu hardal. Mae Teledu Opus yn chwilio am gystadleuwyr ar gyfer cyfres newydd. Beth amdani, ardaloedd Caerdydd? Y Mynydd Bychan v. Cyncoed, Treganna v. Pontcanna, Yr Eglwys Newydd v. Llandaf . . . ! Bydd angen cysylltu â Ceri Wyn Richards, Teledu Opus, 21-23 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DA (029-2061 1222) erbyn 1 Awst, os ydych am gystadlu.

## Cyhoeddi Caerdydd

Dros y Sul, 5-7 Mai, cafwyd digwyddiadau i gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2001 a gynhelir yng Nghaerdydd. Dechreuwyd ar yr Ŵyl drwy gynnal gorymdaith o tua mil o blant o ysgolion cynradd Caerdydd a'r Fro drwy ganol Caerdydd i Erddi Sophia, lle cynhaliwyd jambori i'r plant yn y Ganolfan Chwaraeon dan arweiniad Martyn Geraint, *Planed Plant* a *Hotel Eddie*. Cyn i'r orymdaith gychwyn anerchwyd pawb gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith sef Huw Llewelyn Davies, a chyflwynwyd y copi cyntaf o'r Rhestr Testunau i Daniel Evans, Llywydd yr Urdd eleni.

Yn ystod dydd Sadwrn cafwyd eitemau ynghanol y ddinas gan nifer o ysgolion yr ardal, i dynnu sylw'r cyhoedd at y Cyhoeddi ac ar y nos Sadwrn cyrchodd dros dri chant o bobl i'r Gyfnewidfa Lo ym Mae Caerdydd i ginio mawreddog. Dudley a Paj oedd yn gyfrifol am y bwyd tra oedd Rhodri Ogwen Williams yn gyfrifol am yr ocsiwn, a'r gerddoriaeth gan Caryl a'r Band.



Fore Sul cynhaliwyd gwasanaeth undebol i holl gapeli ac eglwysi Cymraeg yr ardal yn Neuadd Dewi Sant dan arweiniad Eleri Morgan, gydag Alun Guy yn arwain y canu a phlant a ieuenctid yr holl ysgolion Sul yn cyfrannu eitemau. Daeth torf ynghyd ac yr oedd graen ar y gwasanaeth. Cafwyd casgliad ar ddiwedd y gwasanaeth tuag at Gymorth Cristnogol ym Mozambique ac elusennau 2000 yr Urdd sef Childline a'r NSPCC.

Daeth y dathliadau i ben gyda chyngerdd y tri thenor, sef Geraint Dodd, Rhys Meirion a Wynne Evans a'r delynores Caryl Thomas yn Theatr Reardon Smith ar y nos Sul ac Arfon Haines Davies yn cyflwyno'r artistiaid.

## Dosbarth '94 Llanhari

Cyfres o dair rhaglen sy'n dilyn hynt a helynt tri a fu'n athrawon yn Ysgol Gyfun Llanhari yn 1994 a nifer o'r disgyblion a fu dan eu gofal, yw Dosbarth '94, a ddarlledir ar S4C ar 16, 23 a 30 Gorffennaf. Yr athrawon yw Ann Saer, Llandaf, sydd bellach wedi ymddeol, Dr Dylan Jones, prifathro ysgol gyfun Gymraeg newydd Bro Morgannwg, a Peter Griffiths, sy'n parhau yn brifathro Ysgol Llanhari.

## Dyrchafiadau yn Adran y Gymraeg

Mae Prifysgol Caerdydd wedi dyrchafu tri o staff Adran y Gymraeg ar gyfrif rhagoriaeth eu gwaith ymchwil. Dyfarnwyd cadair bersonol i Dr Peter Wynn Thomas, awdur *Gramadeg y Gymraeg*. Dyrchafwyd Dr Robert Owen Jones, Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg, yn Ddarllenydd, a Dr E. Wyn James, sy'n arbenigwr ar fywyd diwylliannol y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn Uwchddarlithydd.


## Pop yn y Porth

Cyn bo hir bydd yr hen ffatri bop Corona yn y Porth, Rhondda yn cael ei thrawsnewid yn gyfadail stiwdio ar gyfer teledu digidol ac ati ac yn bencadlys i Grŵp Avanti. Mae pennaeth y grŵp, Emyr Afan, yn byw yn Rhiwbina. Mae'n berchennog dwy wobr BAFTA Cymru ac yn gyfarwyddwr llu o raglenni sy wedi ymddangos ar S4C, heb sôn am greu'r grŵp *Mega* sy mor boblogaidd gyda'r to ifanc ar hyn o bryd.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

Nid oedd yn dymor bythgofiadwy i glybiau rygbi a phêl-droed y Brifddinas; tymor trychinebus ar Barc Ninian wrth reswm, ond daeth y Bencampwriaeth i Barc y Cardiff Arms i leddfu dipyn ar siom Cwpan Ewrop a Chwpan Cymru. Cyn darllen beth sydd ym meddwl Howard Spriggs ynglŷn â dyfodol y bêl gron a chriced, dyma fraslun o faes y bêl hirgron.

## Rygbi



Mae hi'n amlwg ddigon bod Caerdydd yn gosod sylfaen cadarn ar gyfer eu dyfodol, gan iddynt roi £170,000 o'r neilltu i ddatblygu eu chwaraewyr ieuainc, a Meic Rayer fydd hyfforddwr y garfan o dan 21 oed. Nid yw'r clwb yn hoff iawn o glywed eu bod yn dibynnu'n ormodol ar chwaraewyr ifainc dawnus a feithrinwyd gan glybiau eraill. Mawr obeithio y bydd pob un o'n prif glybiau'n gwneud felly - Cymry a ddylai chwarae iddynt bob un, nid rhai y mae ganddynt nain neu daid a ddarllenodd y *Western Mail* hanner can mlynedd yn ôl cyn ymfudo.

Caerdydd fydd yn un o bum clwb Cymru a fydd yn chwarae mewn cynghrair o dan 21 oed, ynghyd â Bryste a Chaerfaddon; ni allwn gael yr holl ffeithiau cyn i mi ysgrifennu'r erthygl, ond ymddangosai ar y pryd mai "Cynghrair Môr Hafren" fyddai ei enw (fy enw i yw hwn - "Channel League" a glywais!)

Ymunodd Pieter Muller o Dde Affrig â'r clwb ganol mis Mehefin i lenwi'r bwlch a ddaeth ar ôl i Leigh Davies groesi Môr Hafren ac ymuno â Bryste. Mae 33 o gapiau gan Muller, a sgoriodd dri chais i'w wlad - chwaraeodd yn erbyn Cymru yng Nghaerdydd yn 1994, ac yn Pretoria yn 1998, ond ni sgoriodd yr un o'r pymtheg cais a ildiwyd y diwrnod hwnnw. Roedd yn dda iddo chwarae yn yr ornest gyntaf honno ar 26 Mehefin 1999, yn y Stadiwm newydd pan gollodd ei wlad am y tro cyntaf yn erbyn Cymru. Hwyrddydd haf bythgofiadwy oedd hwnnw - nid, ysywaeth, gwawr cyfnod euraid arall.

Cafodd y clwb faswr newydd hefyd, sef, Lee Davies a fu yn Sain Helen, ond a benderfynodd symud wedi i Abertawe ddenu Cerith Rees o Gastell-nedd. (Pam aeth Cerith i Sain Helen, tybed, ac Arwel Thomas mor ifanc?) Rhyfedd, hefyd, i Gaerdydd adael i Paul Burke ymadael â nhw ac un flwyddyn o'i gytundeb ar ôl; fe oedd chwaraewr gorau'r tymor yn ôl Clwb Cefnogwyr Caerdydd, a'u sgoriwr uchaf hefyd, â'i 277 o bwyntiau. Bu sôn ddiwedd Mehefin am fenter Leonardo rhwng Caerdydd, Benetton Treviso a Stade Toulousain, lle byddai'r tri chlwb yn trafod datblygu chwaraewyr ifainc. Oes, mae hyder mawr yn Ymerodraeth Peter Thomas.


## Pêl-droed



A'r tymor siomedig diwethaf yn fyw yn y cof o hyd mae'r chwaraewyr sy'n weddill o garfan Caerdydd wedi dechrau paratoi ar gyfer y tymor nesaf yn y drydedd adran ac amryw o'r cefnogwyr yn dyfalu - beth ar y ddaear sy'n digwydd ym Mharc Ninian? Mae sôn cyson am Sullivan a Hammam - dau filiwnydd sy'n llygadu'r clwb - y cyfarwyddwyr i bob golwg yn barod i werthu'r clwb i berson addas ac eto mae rhyw anghydfod yn codi o hyd a'r clwb yn colli miloedd o bunnau bob wythnos yn ôl yr hyn a glywn. Mae un peth yn sicr, os digwydd yr un peth â'r llynedd ac oni fydd mwy o ymroddiad oddi wrth y chwaraewyr, bydd y clwb allan o Gynghrair Lloegr erbyn mis Mai nesa. Dydi'r garfan bresennol ddim yn ddigon da i ddal eu lle yn y drydedd adran hyd yn oed.

Mae'r rheolwr Billy Ayre yno wrth y llyw am y ddau dymor nesaf - a hyn ar ôl methu'n arw y tymor diwetha. Mae'r ansicrwydd am berchennog newydd yn niweidiol i'r clwb - mae rhai chwaraewyr wedi ymadael ac mae angen gwaed newydd yn ddiymdroi - golwr heb amheuaeth, canolwr cadarn, dau gefnwr a all amddiffyn, a dau chwaraewr a all ennill y bêl ganol cae - a hyn yw dechrau'r stori o ail-drefnu. 'Does rhyfedd yn y byd fod y cefnogwyr selog ddim yn rhy awyddus i adnewyddu eu tocynnau tymor. Bydd y datblygiadau o fewn y clwb yr wythnosau nesaf yn ddiddorol iawn.

## Criced



O leiaf mae yna ychydig fwynhad gyda'r tymor criced er na fu fawr o lwyddiant i Forgannwg yn yr Ail Adran o'r Cynghrair Cenedlaethol er y proffwydo y byddai dyrchafu i'r Adran gyntaf ar ddiwedd y tymor. Ond fe welwyd mwy o lwyddiant yn y gemau undydd - a'r posibilrwydd, os bydd y llwyddiant yn parhau, i ddyrchafu i'r Uwch Adran. Ac o leia fe gyrhaeddwyd rownd derfynol yng Nghae Tomos Lord, er y siom o golli.

Ond un cwestiwn diddorol - ble yn y byd mae'r cricedwyr o Gymru? Cricedwyr, dros y blynyddoedd, fu mor allweddol i dîm y sir. Tybed oes rhaid mynd y tu hwnt i Glawdd Offa er denu chwaraewyr i'r tîm?

**Howard Spriggs**

### Diwedd Cyfnod yn y Ganolfan

Daeth diwedd ar gyfnod pan adawodd Richard Lewis Ganolfan Dysgu Cymraeg Prifysgol Caerdydd ar ôl dros ddeng mlynedd o wasanaeth yno fel tiwtor Cymraeg i oedolion. Hoffai dysgwyr a thiwtoriaid y Ganolfan ddymuno'n dda iawn iddo at y dyfodol. Y mae Richard yn diwtor heb ei ail a chanddo bersonoliaeth gynnes, ac mae pawb yn gweld ei eisiau yn fawr. Priododd y llynedd ac y mae yntau a'i wraig wedi ymgartrefu yn Chippenham, lle mae hi'n gweithio fel ficer. Y mae Richard bellach yn gweithio fel cyfieithydd o'i gartref yn Chippenham. Yn y llun gwelir Richard Lewis yng nghwmni rhai o staff y Ganolfan y tu allan i'w hadeilad yn 42 Parc y Plas. O'r chwith: Ceris Jones, Richard Lewis, Dr Robert Owen Jones a Rhobat Bryn Jones.



## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Mae dau lyfr ar gyfer dysgwyr wedi ymddangos yn ddiweddar: geiriadur gan Gareth King a llyfr gramadeg gan Heini Gruffudd.

Oes angen geiriadur newydd? Wel, mae'r un 'ma braidd yn wahanol. Yn ogystal â rhestrau geiriau a'u hystyron, mae'n rhoi enghreifftiau o sut mae gair yn cael ei ddefnyddio, ac esboniad gramadegol mewn blwch lle bo angen. Geiriadur yr iaith lafar yw e, ac felly peidiwch â disgwyl gweld ffurfiau safonol ysgrifenedig. Dylai fod yn ddefnyddiol iawn i ddechreuwyr ac yn werth chweil hyd at TGAU; ar ôl hynny bydd eisiau rhagor o eiriau, a geirfa fwy ffurfiol - rhywbeth y tu allan i sgôp y llyfr hwn. Fel ym mhob llyfr gan Gareth King, mae'r esboniadau i gyd trwy gyfrwng y Saesneg, ond maen nhw'n glir ac yn gyflwyniad da i iaith bob dydd. Yn £10, mae'n rhatach o lawer na *Geiriadur yr Academi*, ac yn fwy o gymorth i'r dysgwr na'r *Geiriadur Mawr*. Mae'n werth ei gael.



Un o luniau *Cymraeg Da*

Oes angen llyfr gramadeg newydd? Oes, oes, oes! Rwy'n gwybod nad yw hi'n ffasiynol dysgu gramadeg y dyddiau 'ma, ond rwy'n credu'n gryf bod rhaid dysgu gramadeg i'r rhan fwyaf o oedolion os ydyn nhw'n mynd i feistroli'r iaith. A dyma lyfr gramadeg sy'n gynhwysfawr, yn glir ac yn hwyl. Beth arall byddech chi'n ei ddisgwyl gan awdur *Welsh is Fun* a *Welsh is Funtastic*? Sgrifennwyd y llyfr ar gyfer ysgolion, ond mae'n addas iawn i oedolion hefyd. Er ei fod e'n canolbwyntio ar yr iaith ysgrifenedig, mae cyfeiriadau at yr iaith lafar ac at iaith ffurfiol iawn hefyd. Mae esboniadau, driliau, ymarferion, awgrymiadau ar gyfer sgyrsiau, gwaith ysgrifenedig a phethau i'w trafod, ac mae'n llawn cartwnau a ffotograffau gwych. Mae gan yr awdur ddigon o barch tuag at y dysgwr a'r iaith Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng i holl esboniadau'r llyfr (ac mae rhestr termau gramadegol yn y cefn). Mae'n bosibl dilyn y llyfr fesul uned, neu fesul thema, neu ddefnyddio'r mynegai i chwilio am rywbeth arbennig. Bydd yn cadw ichi fynd o'r Wlpan i Lefel A.




Gareth King. *Pocket Modern Welsh Dictionary*. Oxford: 2000.
Heini Gruffudd. *Cymraeg Da*. Y Lolfa: 2000.

Os ydych chi eisiau wybodaeth bellach am CYD, cewch ffonio Padi Phillips - 029 2031 2293
COFIWCH DDOD I YMWELD Â STONDIN CYD YM MHABELL Y DYSGWYR YN EISTEDDFOD LLANELLI, 5-12 AWST

**Geirfa**


| | |
|---|---|
| ymddangos - *appear* | addas - *suitable* |
| braidd yn wahanol - *a bit different* | canolbwyntio - *concentrate* |
| lle bo angen - *where necessary* | esboniad - *explanation* |
| yr iaith lafar - *the spoken language* | awgrym - *suggestion* |
| trwy gyfrwng - *through the medium* | parch - *respect* |
| cynhwysfawr - *comprehensive* | fesul uned - *unit by unit* |
| | mynegai - *index* |

**Digwyddiadau CYD**

Dydd Llun ola'r mis - Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
Dydd Gwener - Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00
*Am fanylion pellach ffoniwch Padi Phillips - 029 2031 2293*

# Y Border Bach

**gan Hwn a Hon**



Pa liw sydd fwyaf cyffredin yn eich gardd chi? Efallai bod gennych ddim ond gwyrdd y dail, neu'n waeth, brown y pridd! Efallai bod gennych sbloet o bob lliw dan haul.

Mae 'na rywbeth i'w ddweud dros gyfuno lliwiau a ffurf planhigion i wneud darlun sy'n plesio'r llygad. Wedi'r cwbwl, fyddech chi'r gwragedd ddim yn gwisgo sgert a blows os nad oedd y lliw a'r steil yn gweddu â'i gilydd. Felly, paham rhoi pob math o liwiau gyda'i gilydd yn yr ardd?

Mae wedi bod yn ffasiynol yn ddiweddar i greu borderi un lliw, e.e. gardd wen Siminghurst, Swydd Gaint. Ond mae hyn yn anodd i'w wneud yn dda gan fod gwawr o liwiau eraill yn y rhan fwyaf o flodau gwyn. Gall y syniad weithio'n dda mewn gerddi mawr ond fe allai'r effaith fod yn undonog mewn gardd fach. Mae'n well cael dau neu dri lliw sy'n asio gyda'i gilydd yn yr un border. Cyfuniad clasurol yw piws a melyn, e.e. cennin Pedr felyn a pansies piws. Yr un modd mae llwyni a dail porffor neu goch tywyll yn edrych yn dda gyda llwyni a dail neu flodau melyn. Gallwch gyfuno lliwiau pinc/porffor/glas, neu beth am hufen/lliw bricyll/glas golau?

Nid oes rhaid i'r lliwiau i gyd fod yn syber. Os ydych yn hoffi lliwiau tanllyd, cyfunwch flodau coch/melyn/oren a dail porffor, e.e. border coch gardd Hidcote, Swydd Gaerloyw. Ond peidiwch â'i rhoi mewn lle rhy heulog, gall fod yn llethol ar ddiwrnod poeth! I'r gwrthwyneb, mae blodau gwyn yn well mewn man cysgodol neu fan sy'n dal pelydrau'r haul wrth iddo fachlud, maent yn cymryd arnynt ryw oleuni eu hunain.

Dw i ddim yn argymell eich bod yn taflu allan eich holl blanhigion a dechrau eto, ond efallai y byddai eu symud o gwmpas ychydig yn gwella'r cyfanwaith. Gellid gwahanu lliwiau sy'n taro ar ei gilydd gyda llwyni o ddail arian, neu flodau gwyn. A'r tro nesaf y byddwch yn prynu rhywbeth newydd ystyriwch y lliw.

Os am weld yr arbenigwyr wrthi, ewch i Hadspen, Gwlad yr Haf - mae yno un border hir iawn ar ffurf bwa sy'n symud yn gelfydd o'r naill liw i'r llall ar ei hyd nes cyfuno'r holl liwiau. Rhaid bod yn arddwr crefftus a bod â llygad da am liw i wneud hynny. Os yw'n dal yn well gennych sbloet o liw, yna ewch i ardd Christopher Lloyd yn Great Dixter, Dwyrain Sussex, am ysbrydoliaeth. Mae e'n torri'r rheolau i gyd - ac yn llwyddo!




## Bedyddio yn yr Eglwys Efengylaidd

Cynhaliwyd oedfa fedydd gan Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd yn ddiweddar. Bedyddiwyd saith, sef Dafydd Elis, Mari Davies, Hywel Williams, Huw Pritchard, Geraint Morris, ac Ann a Marc Davies. Gellir darllen tystiolaethau chwech ohonynt yn llawn yn y rhifyn cyfredol o gylchgrawn yr Eglwys, *Cwmpawd* (rhif 22, Ebrill/Meh. 200), ond dyma rai pytiau yn rhagflas:

'. . . Bûm am fisoedd yn ymwybodol fy mod yn y tywyllwch, heb allu gweld llygedyn o olau yn unman. Roedd y cwestiwn "Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i fod yn gadwedig?" yn un oedd ar fy meddwl yn aml. Daeth yr ateb un nos Sul, mewn pregeth gan y Parch. Gwynn Williams o'i gyfres yn yr Actau. Adnod 38 o'r ail bennod oedd y testun: *'Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau, a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân.'* Y gair 'edifarhewch' oedd yr un a'm trawodd. Roedd yn air cyfarwydd i mi - roeddwn wedi dysgu gartref, yn y cwrdd ac yn yr Ysgol Sul mai ei ystyr oedd "troi" oddi wrth bechod ac at Grist, ond dim ond yn awr y deellais ei ystyr mewn gwirionedd - rhaid oedd i mi yn bersonol droi oddi wrth y byd a rhoi fy ffydd yng Nghrist Iesu . . .' **Dafydd Elis**

'Cefais y fraint o gael fy nghodi ar aelwyd Gristnogol a chael fy nhrwytho yng ngwirioneddau'r Efengyl, ond yn ddeuddeg oed deuthum i sylweddoli nad oeddwn i'n rhannu yr un cariad â'm rhieni at yr Arglwydd a dechreuodd hyn fy nwysbigo. Sylweddolais nad oedd yr hyn yr oeddwn yn ei wybod yn barod yn real yn fy mywyd i . . . Un Sul pregethwyd ar 1 Thesaloniaid 5:2 - *'Oblegid chwi a wyddoch eich hunain yn hysbys, mai felly y daw dydd yr Arglwydd fel lleidr yn y nos'*. Siaradodd Duw â mi trwy'r bregeth. Sylweddolais fod yn rhaid i mi edifarhau am fy mhechodau a rhoi fy mywyd i yn llwyr i'r Arglwydd . . .' **Mari Davies**

'. . . Fe es drwy gyfnod o gilio oddi wrth Dduw ac yna cael fy nwyn yn ôl yn agosach ato, a thrwy y cyfan aros am sicrwydd fy mod yn Gristion. Fe ddaeth y sicrwydd hwnnw pan oeddwn yn ddwy ar bymtheg oed . . . Nid yw'r amser oddi ar hynny wedi bod yn gyfnod parhaus o fod yn frwdfrydig fy ffydd, ond fe fu i Dduw agosáu ataf pan oeddwn Ei angen fwyaf . . .' **Hywel Williams**

'Wrth geisio achub 'mhriodas a dyfodol fy nheulu, at bwy y troes i? Wel, at unrhyw un oedd yn fodlon gwrando. Chwiliais am atebion. Dechreuais ofyn y cwestiynau yr oeddwn wedi eu gofyn yn arwynebol mewn caneuon, ond y tro hwn roedden nhw'n gwestiynau real, gan ddyn gwan, blinderog a llwythog. Roeddwn i'n ddall i ystyr y Beibl tan fis Ebrill diwethaf. Nes i mi ofyn am faddeuant a rhoi'r awenau i Iesu, fy Ngwaredwr, doeddwn i ddim yn un o'i ddilynwyr. Mae Iesu Grist yn ganolog yn fy mywyd ers hynny. **Huw Pritchard**

'Ces i fy nghodi mewn cartre' Cristnogol a chlywed am Iesu Grist ers cyn co'. Ddaeth yr hyn roeddwn i'n ei glywed o Sul i Sul ddim yn fyw i mi, er hynny, tan fy mod i'n un ar ddeg. Yr adeg honno, bu farw Dad-cu a chyfnither bymtheg oed, ac fe symudon ni o Fangor i Gaerdydd - a'r cwbl o fewn dau i dri mis. Cyfnod caled, ond cyfnod hefyd o weddïo a throi at Dduw o ddifrif am y tro cyntaf . . .' **Ann Davies**

'Pam yn y byd mae dyn yn ei dridegau yn gwirfoddoli i fynd trwy ddefod mor rhyfedd â bedydd? Yn syml oherwydd imi deimlo y dylwn ufuddhau i orchymyn Iesu Grist. Fe ddes i ffydd yn Iesu Grist yn fy arddegau, ond nid mynd yn haws wrth dyfu'n hŷn yw hanes y bywyd Cristnogol. Os rhywbeth mae'r ymwybyddiaeth o bechod ac o fethiant yn mynd yn fwy. Ond o ganlyniad mae'r ffaith fod Duw wedi maddau fy mhechod ac yn fy nerbyn o hyd yn peri imi lawenhau a rhyfeddu fwyfwy hefyd . . .' **Geraint Morris**

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
029 2066 6222

# CURIAD

**Cerddoriaeth Gyfoes o Gaerfyrddin!**



***Rhian Tomos, Rhian Lewis, Siân Lewis, Elin Llwyd a Caryl Davies***

***Os hoffech brynu CD neu dâp CURIAD, maent ar gael yn awr yn eich siop Gymraeg leol neu cysylltwch yn uniongyrchol â'r grwp ar 01267 221298 neu ar e-bost: curiad@ukgateway.net***

## Talon Cymru Cyf.

Angen cyfrifiadur neu feddalwedd?
*I'r plant / cartref / busnes / swyddfa?*

Am gyngor anibynnol
a gwasanaeth proffesiynnol

Ffôn 029 2055 5978

*e.bost* Wyn.Talon@BTinternet.com

## AR WERTH
# CARAFAN a PHIANO

**Piano** cyngerdd bach (baby grand) mewn cyflwr da. Cynnig cynta dros £1,000.

**Carafan** symudol Compass Echo, yn cynnwys adlen ac adlen fewnol (cysgu hyd at 7), a phopeth angenrheidiol i garafanio. Derbynnir cynigion dros £1,000.

Lleoliad: Bro Gwyr (cyfleus i faes Steddfod Llanelli)

**Ffoniwch 029 20256475 i drafod**

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **01222 868208**
neu **0468 973229**

## AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

**Geraint B. Llewelyn**
LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED,
CAERDYDD, CF23 6PA
FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORICHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL